Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Inclusive Skills: Horticulture

## Competition Overview

Horticulturalists are trained to maintain gardens and are involved in designing and planting containers, hanging baskets and borders.

In this competition, competitors will be required to complete various elements of soft landscape. This will include bed preparation, design and planting of a raised border. Participants will also be required to demonstrate plant knowledge and to merchandise a display in a retail plant area

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

This competition is for those training for a career in Horticulture and working at Entry level 3 with a recognised Additional Learning Need. Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

For further guidance on Inclusive Skills competitions please review the guidance available here.

A statement of support outlining any individual needs of the participant within the competition must be submitted by 13th December 2024 along with their entry form .

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 3 per location plus maximum of 3 reserves can be registered incase of absence.

This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition. This is determined by 'location' and 'organisation'.  'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete.
The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, click here

**Task Duration**
2 Hours

## Brief

**This year the theme is "Winter Wonderland"**
Participants will be given 1 hour to prepare a Seasonal Planter by taking inspiration from the chosen theme. Additional materials and decorative ornamentation (for example, balloons or stakes) are encouraged to show off your creative flair!
Learners can pre prepare and bring with them a drawing design to follow during the task. Learners will then have a further hour to undertake a matching exercise, matching plant care labels to the correct plant and arranging plants as if for a shop window display.

This competition will test participant's knowledge and skills in the following areas:

- Health and safety and PPE in the workplace
- Garden design
- Creativity and plant knowledge
- Planting skills

The competition will run as follows:

**<u>Task 1</u>**
Following a premade plan.
Practical assessment:

- Demonstrate horticultural health and safety while constructing the planter.
- Construct the planter according to your plan/design.
- Clear away equipment and clean work area ready for the presentation.
- Present your planter to the judges, explaining your selections/choices of planting and plants.
- Demonstrate aftercare of the planter explaining what you would have to do to extend the life and vigour of the planter.

**Provided:**

- Planting Box : 500mm x 150mm Planter box
- Selection of Seasonal Plants

- Compost

**Task 2**

Matching Exercise and shop window display:

- Demonstrate plant knowledge
- Understand plant care needs
- Demonstrate attention to detail
- Merchandise a display
- Present display

**Required from participants:**

- Participants must provide their own uniform (e.g. gloves, overalls/apron, boots)
- Tools (e.g. trowel, secateurs)
- Decoration to support the theme (Secondhand or handmade decoration is encouraged, please note we request no more than £5 is spent on decorations per competitor.)

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please click here to access.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

**Competition specific rules**

- Participants will receive a health and safety briefing at the start of the showcase.
- Participants will start and finish work as instructed by the judges.
- Participants must provide their own tools and PPE (at a minimum this is to include overalls/garden coat and gloves and should include safety boots/shoes).
- Plants and equipment (unless stated) will be provided.
- Participants will have 1 hour to complete their tasks. This may be extended for those with a statement of support.
- A statement of support outlining any individual needs of the learner within the showcase - ie. support with communication etc. will need to be completed by the day prior to beginning the showcase.
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the participants must act accordingly to the instruction of the organiser.
- If during the showcase a participant feels they must leave their work (eg. medical reasons, toilet break), they will have the time recorded on a 'time out' sheet by a member of staff.
- The judges' decision is final.
- Photographs will be taken during the event that may be used for marketing/publicity purposes – if the participant / support staff cannot have their photo taken it is the responsibility of the college entering the showcase to notify the organisers beforehand

and at the event.
- If a participant / support staff has any dietary requirements or allergies please notify when completing the showcase application.
- Participants must only receive support that is outlined in their support statement. Support that is deemed to be outside that given in the support statement could result in the participant being disqualified from the showcase.
- Please advise RLewis@cavc.ac.uk prior to the event how many support staff will be accompanying the participants from your organisation.

**Generic competition rules**
- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment
Marking and judging of this competition will be carried out by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Competitors will be marked against the following criteria:

| | |
|---|---|
| Plan/design and preparation of planter | 10% |
| Health and safety / Maintenance of work area and correct use of PPE | 10% |
| Planting skills (Correct depth and facing) | 15% |
| Appropriate density combination of plants (height/spread/ longevity and match with theme) | 20% |
| Details of aftercare | 15% |
| Matching labels with correct plant | 15% |
| Window Display Creativity | 15% |
| **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 13th March 2025, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

## Competition Lead

**Lead Contact:**

Rebecca Lewis
Email: RLewis@cavc.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Enw'r Gystadleuaeth

Sgiliau Cynhwysol: Garddwriaeth

## Gwybodaeth Gyffredinol am y Gystadleuaeth

Caiff garddwriaethwyr eu hyfforddi i gynnal a chadw gerddi ac maen nhw'n ymwneud â chynllunio a phlannu bocsys, basgedi crog a borderi.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd angen i gystadleuwyr gyflawni elfennau amrywiol o dir meddal. Bydd hyn yn cynnwys paratoi gwely, cynllunio a phlannu border uchel. Bydd hefyd yn ofynnol i gyfranogwyr ddangos gwybodaeth am blanhigion ac i farchnata arddangosfa mewn ardal planhigion manwerthu.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai hynny sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn Garddwriaeth ac yn gweithio tuag at fynediad lefel 3 ag Angen Dysgu Ychwanegol cydnabyddedig.

Am arweiniad pellach ar gystadlaethau Sgiliau Cynhwysol, edrychwch ar y canllawiau sydd ar gael yma.

Rhaid cyflwyno datganiad o gefnogaeth yn amlinellu unrhyw anghenion unigol sydd gan y cyfranogwr o fewn y gystadleuaeth ynghyd a'u ffurflen gais erbyn 13fed Rhagfyr 2024. Gwnewch yn siŵr fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r gallu i gyflawni'r dasg.

## Cyfyngiadau ymgeisio gan sefydliad

Cyfanswm o hyd at 3 i bob lleoliad a gellir cofrestru uchafswm o 3 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.

Dyma'r uchafswm o gystadleuwyr a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael ei gyflogi.
Am ragor o arweiniad ar y canllawiau hyn, cliciwch yma

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu.
Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

**Hyd y Dasg**
2 Awr

## Briff

**Thema eleni yw "Gaeaf Rhyfeddod"**
Bydd gan gyfranogwyr 1 awr i baratoi Bocs Plannu Tymhorol. Anogir i chi ddefnyddio deunyddiau ychwanegol ac addurniadau addurniadol (er enghraifft, balwnau neu bolion) i ddangos eich dawn greadigol! Bydd dwy dasg yn y gystadleuaeth; y dasg gyntaf ar bapur. Gall dysgwyr baratoi ymlaen llaw a dod â dyluniad lluniadu gyda nhw i'w ddilyn yn ystod y dasg. Yna bydd gan ddysgwyr awr arall i ymgymryd ag ymarfer paru, gan baru labeli gofal planhigion â'r planhigyn cywir a threfnu planhigion fel pe bai ar gyfer arddangosfa ffenestr siop.

Bydd y gystadleuaeth hon yn profi gwybodaeth a sgiliau'r cyfranogwr yn y meysydd canlynol:

- Iechyd a diogelwch a Chyfarpar Diogelu Personol yn y gweithle
- Dylunio gerddi
- Creadigrwydd, gwybodaeth am blanhigion
- Sgiliau plannu

Bydd y gystadleuaeth yn dilyn fel a ganlyn:

**<u>Tasg 1</u>**
Dilyn cynllun wedi'i wneud o flaen llaw.
Asesiad ymarferol:

- Dangos arferion iechyd a diogelwch garddwriaethol wrth adeiladu'r bocs plannu.
- Adeiladu'r bocs plannu yn unol â'ch cynllun/dyluniad.
- Tacluso'r offer a glanhau'r ardal weithio yn barod at y cyflwyniad.
- Cyflwyno eich bocs plannu i'r beirniaid gan egluro eich detholiadau/dewisiadau plannu a phlanhigion.
- Dangos ôl-ofal o'r bocs plannu gan egluro beth fydda'i rhaid i chi ei wneud i ymestyn bywyd a grym y bocs plannu.

**Darparu:**

- Blwch Plannu: Blwch Plannu 500mm x 150mm
- Detholiad o Blanhigion Tymhorol
- Compost

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2024 – Skills Competition Wales 2024 

**Tasg 2**

Ymarfer Paru ac arddangosfa ffenestr siop:

- Dangos gwybodaeth am blanhigion
- Deall anghenion gofal planhigion
- Dangos sylw i fanylion
- Marchnata arddangosfa
- Cyflwyno arddangosfa

**Yr hyn sydd ei angen gan y rhai sy'n cymryd rhan.**

- Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan ddarparu eu gwisg eu hunain (e.e. menig, oferôls / ffedog, esgidiau).
- Offer (e.e. trywel, siswrn tocio).
- Addurniadau i gefnogi'r thema (Rydym yn annog addurniadau ail-law neu rai sydd wedi'u gwneud â llaw, nodwch ein bod yn gofyn i gystadleuwyr beidio â gwario mwy na £5 ar addurniadau.)

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, cliciwch yma i gael mynediad iddynt.

## Rhestr Seilwaith

Caiff pob planhigyn, pot plannu a gwrtaith eu darparu.  Bydd y pot neu fasged grog yn 30cm mewn diamedr.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

I weld y telerau ac amodau cystadlu a rheolau'r gystadleuaeth ewch i.

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- Bydd cyfranogwyr yn derbyn gwybodaeth iechyd a diogelwch ar ddechrau'r sesiwn arddangos.
- Bydd y cyfranogwyr yn dechrau a gorffen y gwaith yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Rhaid i gyfranogwyr ddarparu eu hoffer a'u Cyfarpar Diogelu Personol eu hunain (Rhaid i hyn gynnwys o leiaf dillad allanol/cot garddio a menig a dylai gynnwys esgidiau diogelwch).
- Caiff planhigion ac offer (oni nodi yn wahanol) eu darparu.
- Bydd gan gyfranogwyr 1 awr i gwblhau eu tasgau. Gellir ymestyn hyn ar gyfer y rhai hynny sydd â datganiad o gefnogaeth.
- Rhaid i ddatganiad o gefnogaeth yn amlinellu unrhyw anghenion unigol sydd gan y dysgwr o fewn y sesiwn arddangos - h.y. cefnogaeth i gyfathrebu e.e. gael ei gwblhau erbyn y diwrnod cyn dechrau'r sesiwn arddangos.
- Os bydd toriad yn y trydan, yr offer yn torri neu ddamwain, rhaid i'r cyfranogwyr ymddwyn yn unol â chyfarwyddiadau'r trefnydd.
- Os yw ymgeisydd yn teimlo ei fod yn gorfod gadael ei waith yn ystod y gystadleuaeth

(e.e. rhesymau meddygol, ymweld â'r tŷ bach), bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar daflen 'amser allan' gan aelod o staff.

- Ni ellir newid penderfyniad y beirniaid.
- Caiff ffotograffau eu tynnu yn ystod y digwyddiad a allai gael eu defnyddio er dibenion marchnata/cyhoeddusrwydd - os nad yw'r cyfranogwr/staff cynorthwyol yn gallu cael eu llun wedi ei dynnu, cyfrifoldeb y coleg sy'n cystadlu yn y sesiwn arddangos yw hysbysu'r trefnyddion o flaen llaw ac yn ystod y digwyddiad.
- Os oes gan gyfranogwr/staff cefnogi unrhyw anghenion dietegol neu alergeddau nodwch hyn wrth lenwi ffurflen gais y sesiwn arddangos.
- Rhaid i gyfranogwyr dderbyn y gefnogaeth a amlinellir yn eu datganiad cefnogaeth yn unig. Gallai unrhyw gefnogaeth yr ystyrir ei fod y tu allan i'r datganiad cefnogaeth olygu bod y cyfranogwr yn cael ei ddiarddel o'r sesiwn arddangos.
- Rhowch wybod i RLewis@cavc.ac.uk cyn y digwyddiad faint o staff cefnogol fydd yn dod gyda'r cyfranogwyr o'ch sefydliad.

**Rheolau cyffredinol**

- Rhaid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth ei hun.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod y gystadleuaeth ei hun.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgaredd y gystadleuaeth i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth ei hun.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir rhagor o amser os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid adrodd am unrhyw fethiant technegol yn eich offer ar unwaith i'r panel beirniadu. Caiff y cystadleuydd amser ychwanegol os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr yn y byd Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant yn marcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon a byddant yn defnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi eu pennu er mwyn sicrhau cysondeb.

Bydd y cystadleuwyr yn cael eu marcio yn unol â'r meini prawf:

| | |
|---|---|
| Cynllunio/dylunio a pharatoi bocs plannu | 10% |
| Iechyd a diogelwch/cynnal a chadw'r ardal weithio a'r defnydd cywir o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) | 10% |
| Sgiliau plannu (Dyfnder ac wynebu i'r cyfeiriad cywir) | 15% |
| Y cyfuniad gorau a'r nifer gorau o blanhigion (uchder/gwasgariad/pa mor hir y | 20% |

| | |
|---|---|
| bydd y planhigion yn para ac os ydy’r cyfan yn gweddu i’r thema) | |
| Manylion am ôl-ofal | 15% |
| Paru labeli gyda'r planhigyn cywir | 15% |
| Creadigrwydd Arddangosfa Ffenestr | 15% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth ar lafar yn cael ei roi i Unigolion a Grwpiau ar ddiwedd y gystadleuaeth. Ni chaiff unrhyw ganlyniadau na dyfarniadau eu cyflwyno ar y diwrnod gan y byddwn yn marcio drwy sicrhau ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 13 Mawrth 2025 , bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt:**
Rebecca Lewis
Email: RLewis@cavc.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2024 – Skills Competition Wales 2024 